# Y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

## ELLS(2)-12-06(p.3)

### Dyddiad: 20 Medi 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 3, Y Senedd
### Teitl: Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen

#### Diben

Diben y papur hwn yw rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o'r gwaith ar weithredu'r rhaglenni Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant rhwng 0 a 7 oed.

#### Crynodeb

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y papur hwn fel sail ar gyfer trafodaeth. Yn dilyn ymgynghoriad llawn ar y Cyfnod Sylfaen rhwng mis Chwefror a mis Mai 2003, cafwyd cefnogaeth aruthrol iddo a dechreuwyd treialu'r Cyfnod Sylfaen mewn 41 o ysgolion/lleoliadau ym mis Medi 2004; bydd hyn yn parhau hyd nes bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n statudol ym mis Medi 2008. Felly, mae'r cynllun peilot wedi cwblhau dwy flynedd gan gwmpasu disgyblion rhwng 3 a 6 oed. O fis Medi 2006 bydd yr ystod lawn (3-7 oed) yn cael ei chwmpasu gan yr ysgolion/lleoliadau sy'n rhan o'r cynllun peilot.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar Dechrau'n Deg rhwng mis Rhagfyr 2005 a mis Chwefror 2006 ac ar ?styried yr ymatebion, rhoddwyd canllawiau i awdurdodau lleol ym mis Mehefin 2006.

#### Y cefndir

Un o nodau craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc yw y dylai pob un ohonynt gael dechrau da mewn bywyd a'r sail orau bosibl ar gyfer eu twf a'u datblygiad yn y dyfodol. Mae'r fenter Dechrau'n Deg yn rhoi gwasanaethau o'r radd flaenaf i blant rhwng 0 a 3 oed yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a bydd y Cyfnod Sylfaen yn darparu ar gyfer pob plentyn 3-7 oed. Mae'r ddwy fenter yn hybu'r nod craidd uchod, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ryngwladol o arferion effeithiol.

#### Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd wrth werthuso Cymorth yng Nghymru a Chychwyn Cadarn yn Lloegr, yn ogystal ag ar dystiolaeth ryngwladol. Yn yr ardaloedd dan sylw, bydd gan blant a'u teuluoedd hawl i ddewislen benodol o wasanaethau a'r rheini wedi'u gwerthuso'n dda. Gobeithir targedu 16,000 o blant 0-3 oed, a gyda buddsoddiadau grant Cymorth gobeithir sicrhau bod dros ?2,000 y flwyddyn ar gael i bob plentyn. Dyma fuddsoddiad dipyn mwy dwys nag

yn y rhaglenni Cychwyn Cadarn eraill yn y DU.

Mae gwasanaethau craidd Dechrau’n Deg yn cynnwys gofal plant rhan-amser am ddim o’r radd flaenaf i blant dwyflwydd oed; gwasanaeth ymwelwyr iechyd gyda llwyth gwaith llai; rhaglenni rhianta; a rhaglenni iaith a chwarae.

Dylai darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth sy’n talu sylw i anghenion y cymunedau lleiafrifoedd ethnig fod yn rhan annatod o’r rhaglen.

Gellir defnyddio cyllid Dechrau’n Deg i ddarparu bwrsariaeth fel y gall plant yn ardaloedd Dechrau’n Deg gael gofal plant o ansawdd briodol drwy gyfrwng y Gymraeg, lle mae hynny’n adlewyrchu dewis y rhieni a lle nad oes unrhyw bosibilrwydd realistig o gael y cyfryw ofal plant yn yr ardal berthnasol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu i Ddechrau’n Deg fod yn grant penodol wedi’i gorlannu i awdurdodau lleol tan o leiaf fis Ebrill 2011. Dylai hyn roi hyder i bartneriaid recriwtio staff o safon.

## Y Cyfnod Sylfaen

Mae’r Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm newydd ar gyfer plant 3-7 oed, yn eu datblygu’n briodol ac yn gosod disgwyliadau uchel ym more oes a fydd yn helpu pob plentyn i gyrraedd ei botensial.

Yn y cynlluniau peilot rydym ar hyn o bryd yn ariannu unrhyw staff ychwanegol sydd eu hangen i fodloni cymarebau’r Cyfnod Sylfaen o 1 oedolyn i bob 8 plentyn 3-5 oed ac 1 oedolyn i bob 15 plentyn ym Mlynyddoedd 1 a 2 (5 i 7 oed). Mae cyllid hefyd ar gael i dalu am staff cyflenwi ac i hyfforddi staff.

## R? sectorau preifat a gwirfoddol

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddatblygu economi gymysg yn y ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn annog y sectorau a gynhelir a’r sectorau nas cynhelir i ddarparu addysg a gofal i blant ifanc cyn oed ysgol gorfodol, o fewn Dechrau’n Deg yn ogystal ?146; r Cyfnod Sylfaen. Mae hefyd yn cefnogi hawliau rhieni/gofalwyr i ddewis y math o ddarpariaeth y maent am i’r plentyn ei chael.

Yn y Canllawiau ar gyfer Partneriaethau Lleol Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant dywedir mai nod pob partneriaeth yw dwyn ynghyd pob un sy’n ymwneud ?hynllunio neu ddarparu addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar. Wrth wneud hynny, dylai’r partneriaethau ddwyn ynghyd yr awdurdod lleol a’r sectorau preifat a gwirfoddol mewn ysbryd o gydweithredu a gwir bartneriaeth, sy’n seiliedig ar yr arferion da presennol. Dylent gydnabod a datblygu cryfderau penodol y sectorau preifat a gwirfoddol.

Yng nghanllawiau Dechrau’n Deg dywedir y gellir defnyddio cyllid Dechrau’n Deg i gefnogi plant sy’n cael gwasanaethau gofal a gwarchod, gan y sector preifat a gwirfoddol, ar yr amod y bodlonir y gofynion ansawdd.

Mewn sawl awdurdod, y sector gwirfoddol fu’r hwb i estyn y ddarpariaeth ran-amser i blant teirblwydd a byddant yn dal i gael r?llweddol o ran datblygu a chyflawni’r Cyfnod Sylfaen.

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin, y Gymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru, y Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant a’r Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd yn rhan o gynllun peilot y Cyfnod Sylfaen cyfredol ac mae eu lleoliadau wedi cael cyllid ar gyfer adnoddau a rheoli. Mae’r sefydliadau hyn wedi cael grant hefyd i gyflogi swyddogion datblygu i gefnogi’r ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar a’r Cyfnod Sylfaen.

## Monitro a gwerthuso

O ran Dechrau’n Deg, bydd sefydliadau ymchwil yn cael gwahoddiad cyn bo hir i dendro am werthusiad pwysig fydd yn cynnwys olrhain sampl o’r plant a gymerodd ran i asesu canlyniadau’r rhaglen.

Yn achos y Cyfnod Sylfaen, mae t?o Brifysgol Llundain a UWIC wedi gorffen gwerthuso dwy flynedd gyntaf y cynllun peilot ac mae ar fin cwblhau ei adroddiad a fydd ar gael erbyn cyfarfod y Pwyllgor ar 22 Tachwedd.

Yn fwyaf arbennig, roedd y gwerthusiad yn ystyried yr hyfforddiant a’r deunyddiau cymorth y bydd angen eu darparu, yr effaith ar reolaeth ac ar adnoddau, y newidiadau mewn addysgeg a’r cymarebau oedolion/disgyblion fydd eu hangen i gefnogi’r Cyfnod Sylfaen.

Yr awgrym ar hyn o bryd yw y bydd yr adroddiad yn dangos:

- bod cefnogaeth frwd i athroniaeth a nodau’r Cyfnod Sylfaen; a
- bod y chwarae a’r addysgeg arbrofol sy’n ganolog i’r Cyfnod Sylfaen yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad plant ac ar eu dysg.

Mae nifer o wersi i’w dysgu o’r cynllun peilot. Yn eu plith mae:

- Yr angen am ddarparu hyfforddiant addas a phwrpasol yn addysgeg y Cyfnod Sylfaen; a
- Gwella’r trefniadau trosglwyddo rhwng y sectorau nas cynhelir a’r rhai a gynhelir; a rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

Bydd Cynllun Gweithredu llawn yn cael ei baratoi i fynd i’r afael ? phob un o’r argymhellion yn yr Adroddiad Terfynol ac unrhyw rai sy’n weddill o adroddiad interim y flwyddyn gyntaf. Caiff y cynllun gweithredu ei roi ger bron y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd.

## Cynllun hyfforddi a’r gweithlu

Mae cyflwyno Dechrau’n Deg a’r Cyfnod Sylfaen yn fentrau polisi pwysig a fydd yn effeithio’n fawr ar y ddarpariaeth ofal ac addysg a gynigiwn i blant 0-3 oed yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig, ac

i blant 3-7 oed ledled Cymru o fis Medi 2008 ymlaen. Mae gan y polis? hyn oblygiadau mawr i'r gweithlu y bydd ei angen arnom ac ar hyfforddi'r gweithlu hwnnw, fel y gallwn gynnig y gwasanaethau hyn i'r safon uchel a ddisgwylir. Ar hyn o bryd, mae swyddogion mynd i'r afael ?146;r dasg anodd a chymhleth o gloriannu'r gweithlu presennol a nodi'i gymwysterau. Yna byddant yn paratoi rhaglen hyfforddiant genedlaethol ynghyd ?eunyddiau hyfforddi i fodloni'r anghenion a glustnodwyd.

Yn achos y Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg rydym yn delio i bob pwrpas ?146;r un grwp o staff – y rhai sydd wedi cymhwyso ar lefel 2, neu'n ddelfrydol ar lefel 3 o Fframwaith Llywodraeth y Cynulliad o Gymwysterau Achrededig ym maes Addysg a Gofal y Blynyddoedd Cynnar. Hefyd, bydd angen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon y Cyfnod Sylfaen.

## Y Sefyllfa Bresennol

Mewn arolwg diweddar a wnaed ar gyfer Cyngor Gofal Cymru gwelwyd bod tua 19,000 o bobl yn gweithio yn sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant, a gofrestrwyd gydag ASGC, ym mis Ionawr 2006 (gan gynnwys gwarchodwyr plant a'r rhai sy'n gweithio mewn meithrinfeydd, gofal dydd llawn, gofal allan o'r ysgol, gofal sesiynol (cylchoedd chwarae) a chwarae mynediad agored). Mae gan oddeutu hanner y staff sy'n gweithio mewn clybiau ysgol, meithrinfeydd a gofal sesiynol o leiaf un swydd arall. Roedd yr arolwg yn amcangyfrif bod gan 16% o'r ymarferwyr gymhwyster ar lefel 2, 45% ar lefel 3 a 4% ar lefel 4. Roedd yr arolwg yn dangos cynnydd o 6% yn y gweithlu yn y flwyddyn flaenorol, ond hefyd trosiant uchel – roedd 75% o gyflogwyr wedi recriwtio staff yn ystod y flwyddyn.

Mae nifer y cynorthwywyr addysgu hefyd ar gynnydd. Roedd 10,225 ohonynt ym mis Ionawr 2006 o gymharu ?,399 y flwyddyn cynt – cynnydd o ryw 9%. Mae'r wybodaeth a gafwyd hyd yma gan yr AALlau am y gweithlu yn awgrymu bod rhyw 80% o gynorthwywyr dosbarth yn y sector a gynhelir eisoes wedi cael cymhwyster Lefel 3 (neu gyfwerth) ac oddeutu 70% yn y lleoliadau a ariennir nas cynhelir. Mae tua 11% o staff yn y sector a gynhelir wedi cael Lefel 2 neu gyfwerth a 22% yn y sector nas cynhelir. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar yr 13 AALl sydd wedi cyflwyno gwybodaeth am eu gweithlu – mae'r gweddill ar fin cwblhau eu data.

Bu'r archwiliadau yr oedd angen eu gwneud i gael yr wybodaeth am y gweithlu'n dipyn o her i bob AALl a bu angen iddynt gydweithio'n agos ?146;r ysgolion a'r lleoliadau a ariennir nas cynhelir sy'n rhan o Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Er nad gwaith hawdd fu cael yr wybodaeth am y gweithlu, mae'r AALlau unigol wedi cydnabod ei fod yn allweddol i fedru cynllunio a gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Bydd y swyddogion yn parhau i weithio gyda'u cymheiriaid yn yr AALlau i fireinio'r data er mwyn medru targedu hyfforddiant, staffio a chyllid yn well.

Mae mwyafrif helaeth yr hyfforddiant yn cael ei wneud mewn sefydliadau addysg bellach, lle mae'r ddarpariaeth ar gynnydd. Roedd 2,133 o ddysgwyr yn astudio am gymwysterau yn sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant ar lefelau 2 a 3 o Fframwaith Llywodraeth y Cynulliad mewn sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru yn 2003/04 a 2,471 o'r cyfryw ddysgwyr yn 2004/05. Blaenoriaeth 5 o Asesiad Dysgu a Sgiliau Cenedlaethol 2006 yw 'Cynyddu nifer y gweithwyr yn sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant sydd ?146;r lefelau priodol o sgiliau'. Defnyddir yr

Asesiad i roi arweiniad i sefydliadau Addysg Bellach ar y ddarpariaeth y mae angen iddynt ystyried ei chynnig. Bob blwyddyn, rhaid i bob coleg gytuno ar fap o'r ddarpariaeth gyda swyddogion y rhanbarthau. Yna bydd Llywodraeth y Cynulliad yn monitro'r sefyllfa ar sail y map hwnnw. Bydd y swyddogion rhanbarthol yn disgwyl i'r colegau gyflawni'r blaenoriaethau a glustnodwyd lle bynnag y bo modd. Yn Asesiad 2006 dywedir:

Mae sector y Blynyddoedd Cynnar a Gwasanaethau Plant wedi tyfu yn ddiweddar, ac mae'n debygol o dyfu eto. Bu llawer o newid yn y sector hwn o ran rheoleiddio a gweithredu polis? a mentrau newydd.

Er mwyn datblygu gweithlu sy'n addas i ddarparu'r mathau o wasanaethau y mae plant a'u rhieni yn eu disgwyl yn yr 21ain ganrif, mae angen brys am gefnogi cymwysterau a hyfforddiant sy'n gysylltiedig ?warchodwyr plant a gwaith chwarae. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn mynnu bod arweinwyr chwarae a staff uwch wedi cael Lefel 3 mewn gwaith chwarae erbyn mis Ebrill 2008 a bod 50% o'r lleill wedi cael Lefel 2. Mae angen i'r holl warchodwyr plant fod wedi cymhwyso hyd at Lefel 3 cyn pen pum mlynedd ar ?ddynt gofrestru. Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, amcangyfrifir (ar sail cymarebau o 1:8 [ar gyfer plant 2-5 oed] ac 1:15 [ar gyfer plant 5-7 oed] ac ar ddatganiadau CYBLD) y bydd angen 3,350 o gynorthwywyr dosbarth ychwanegol. Bydd angen i'r staff ychwanegol hyn fod yn eu lle yn ystod tair blynedd gyntaf y Cyfnod Sylfaen ar y sail ganlynol: 2008/09 – 1,820; 2009/10 – 760; a 2010/11 – 770.

Caiff y ffigurau hyn eu mireinio eto drwy archwiliadau'r AALl o'r ddarpariaeth bresennol a datganiadau CYBLC 2006. Mae'r dadansoddiad diweddaraf o'r lefelau staffio yn y sector a gynhelir yn dangos bod gan oddeutu 40% o'r ysgolion ddigon o staff eisoes i fodloni'r cymarebau arfaethedig.

Rhoddwyd rhagor o arian hyfforddi i awdurdodau lleol fel y gallant baratoi athrawon a chynorthwywyr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Yn 2004/05 rhoddwyd ?20,000 arall i bob awdurdod; yn 2005/06 roedd y ffigur yn ?10,000; ac eleni rydym wedi rhoi ?15,000 arall i bob awdurdod.

Mae ?4.1 miliwn wedi cael ei ddarparu yn 2006-07 drwy Dechrau'n Deg ar gyfer datblygu gweithluoedd y blynyddoedd cynnar a chwarae, yn ogystal ag ar gyfer cynllunio Dechrau'n Deg.

Mae ?7 miliwn wedi cael ei roi drwy gyfrwng Iaith Pawb i gynyddu nifer yr ymarferwyr cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Hyd yma mae rhyw 500 o ymarferwyr wedi cael hyfforddiant neu'n cael hyfforddiant ar hyn o bryd.

## Athrawon sy'n cael Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon

Bydd digon o athrawon yn cael eu hyfforddi i fodloni anghenion y Cyfnod Sylfaen a bydd y cwricwlwm yn galluogi'r sector Addysg Uwch i'w hyfforddi i'r safonau sydd eu hangen. Bydd angen rhoi ystyriaeth i'r gofynion cyfredol ar brofiad ymarferol, i sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybodaeth am y ddarpariaeth a gynhelir a'r ddarpariaeth nas cynhelir. Yn ddiweddar, ysgrifennodd y swyddogion at y rhai sy'n cynnig hyfforddiant cychwynnol athrawon gan dynnu eu sylw at yr amserlen ar gyfer gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a'r Safonau Statws Athro Cymwysedig a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r Safonau'n ei gwneud yn ofynnol i hyfforddeion fod ?wybodaeth

am y pwnc neu'r pynciau y maent yn cael eu hyfforddi i'w haddysgu, a'u bod yn deall y pynciau hynny. Rhaid iddynt ddangos y gallant gyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol neu ddisgwyliedig, ynghyd ?146;r ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n berthnasol i gwricwlwm y disgyblion yn yr ystod oedran yr hyfforddwyd hwy ynddo. Erbyn hyn maent yn cynnwys gofynion penodol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, ac mae'r llythyr yn annog darparwyr i gynnig cyrsiau sy'n cwmpasu'r Cyfnod Sylfaen cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

## Athrawon mewn Swydd

Bydd angen rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant mewn swydd i baratoi athrawon ar gyfer gofynion y Cyfnod Sylfaen cyn iddo gael ei gyflwyno yn 2008, ac ymlaen i'r degawd nesaf. Mae Cronfa Ysgolion Gwell 2007/2008 yn cynnwys blaenoriaeth newydd sy'n cefnogi hyfforddiant i athrawon a chynorthwywyr dosbarth ym mhob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

## Rheolwyr/Arweinwyr yn y Sector Gwirfoddol a Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch mewn Ysgolion

Mae tystiolaeth y gall lefel y cymwysterau sydd gan arweinwyr lleoliadau gael effaith fawr ar ansawdd y ddarpariaeth. Yn y tymor canolig, bydd gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu arweinwyr fel bod ganddynt o leiaf lefel 4, yn yr un modd ?weithwyr Proffesiynol y Blynyddoedd Cynnar yn Lloegr. Mae'r arbedion a ddaeth yn sgil Adolygiad Furlong o hyfforddiant cychwynnol athrawon yn cynnig ffordd o ariannu'r ddarpariaeth angenrheidiol, drwy gyrsiau Graddau Sylfaen ac Astudiaethau Addysg Plant yn y Blynyddoedd Cynnar.

## Cynorthwywyr Gofal/Addysgu

Yr amcan fydd hyfforddi cynifer ?hosibl o'r staff hyn hyd at Lefel 3. Fel y dangosir uchod, tybir bod 45% o'r staff mewn lleoliadau cofrestredig eisoes ar y lefel hon

Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y cynlluniau a baratowyd gan y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc statudol a sefydlwyd gan Ddeddf Plant 2004 yn cynnwys cynlluniau datblygu'r gweithlu, a dylai hyfforddiant staff ar y lefel hon fod yn elfen allweddol o'r rhain. I gefnogi'r gwaith hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd yn ariannu dwy swydd newydd yng Nghyngor Gofal Cymru. Swydd sy'n ymwneud ?atblygu gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yw un ohonynt ac mae'r ail un yn ymwneud ?hrefnu rhwydwaith ar gyfer yr holl weithlu plant i weithio ar strategaeth gweithlu plant Cymru. Bydd y rhwydwaith yn cyfarfod am y tro cyntaf ddiwedd y mis hwn.

## Goblygiadau Ariannol

Mae costau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen i'w talu o'r cyllidebau canlynol y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad ar gyfer 2006-07, 2007-08 a 2008-09 yn eu trefn; cyllidebau dangosol yn unig yw'r rhai ar gyfer 2007-08 a 2008-09 ac maent yn amodol ar bleidlais yn y cyfarfod llawn. Bydd angen i gyllideb y Cyfnod Sylfaen ar gyfer 2008-09 fod yn destun cais yng nghylch cynllunio'r gyllideb yn 2007.

**Y cyllidebau refeniw:**

Refeniw’r Blynyddoedd Cynnar ?20.001 miliwn / ?22.601 miliwn / ?22.601 miliwn

(Mae’r gyllideb hon yn cynnwys tri phrif gyfrif yn 2006-07: darparu lleoedd addysg ar gyfer plant teirblwydd (?15.056 miliwn), datblygiadau Iaith Pawb (?2.4 miliwn) a Chynllun Peilot/Cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen (?2.545 miliwn))

Dechrau’n Deg: ?15.000 miliwn / ?31.000 miliwn / ?31.000 miliwn

**Y gyllideb gyfalaf:**

Y Blynyddoedd Cynnar: ?8.406 miliwn / ?5.206 miliwn / ?5.206 miliwn

**Them?Trawsbynciol**

Bydd angen llawer iawn o waith partneriaeth ar Dechrau’n Deg a’r Cyfnod Sylfaen rhwng Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol. Nodwyd uchod yr effaith ar y sectorau preifat a gwirfoddol yn y ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

Mae canllawiau Dechrau’n Deg yn cydnabod y gallai fod gwahaniaeth yn yr effaith ar grwpiau hiliol a chymunedau, ac mae angen i bartneriaethau lleol fynd ati’n flaenweithgar i sicrhau bod y rhaglen yn cynnig cyfle cyfartal. Mae’r canllawiau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y gwasanaethau’n cwmpasu plant anabl. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn hyrwyddo cyfle cyfartal a gwerthoedd ac mae’n dathlu amrywiaeth. Ei nod yw cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, dathlu gwahaniaethau diwylliannol a helpu plant adnabod a chael dealltwriaeth gadarnhaol o’u diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill.

Nid oes unrhyw faterion perthnasol o bwys sy’n ymwneud ?atblygu cynaliadwy.

**Camau i’r Pwyllgor Pwnc eu Cymryd**

Gwahoddir y pwyllgor i nodi’r papur fel sail ar gyfer trafodaeth.

**Jane Davidson**
**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Swyddog Cyswllt: Chris Burdett, Yr Is-adran Strategaeth Plant, est 3936**